**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION
# CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1:30pm, DYDD LLUN 2il o RAGFYR 2013**

**1:30pm, MONDAY 2nd of DECEMBER 2013**

(Bydd paned ar gael o 1:00pm ymlaen)

(Refreshments available from 1:00pm onwards )

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point


**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk


Dosbarthwyd / Distributed 22.11.13

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Dyfed Edwards Sian Gwenllïan

Selwyn Griffiths Peredur Jenkins

Liz Saville Roberts Dyfrig Siencyn

R.H. Wyn Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trefor Edwards Jean Forsyth

Eric M. Jones Angela Russell

**Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Alwyn Gruffydd Aeron M. Jones

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Brian Jones

**Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2013, fel rhai cywir.
(copi yma – papur gwyn)

**6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.

**7. PENODI PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

I gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd – yn ddarostyngedig i ganlyniadau'r Ganolfan Asesu.

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 12.11.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Brian Jones, Eric M. Jones, Liz Saville Roberts, Angela Russell, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), A Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

1. **CROESO**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
   Ymddiheurwyd i'r Aelodau bod y ffurflenni cais wedi bod yn hwyr yn eu cyrraedd. Amlygwyd bod y ffurflenni wedi eu hanfon allan ddosbarth cyntaf nos Iau 7.11.2013.
   Disgynnodd y cynnig i ohirio'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Edwards, Aeron Maldwyn Jones, Dewi Owen a Dyfrig Siencyn

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Datganodd yr aelod canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

   Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, yn eitem 8 ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn ewythr i un o'r ymgeiswyr.

4. **MATERION BRYS**
   Cais hwyr wedi dod i law.
   Disgynnodd y cynnig i ganiatáu i'r cais gael ei ystyried.

   **PENDERFYNWYD NA DDYLID YSTYRIED Y CAIS.**

5. **COFNODION**
   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2013 fel rhai cywir.

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth**

**eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

**7. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol y derbyniwyd tri chais am y swydd. Cytunwyd bod y tri chais yn cwrdd â gofynion y swydd.

**PENDERFYNWYD**

**Rhoddi'r tri ymgeisydd ar y rhestr fer.**
**Gwahodd yr ymgeiswyr hynny sydd yn llwyddo yn y Ganolfan Asesu i gyfweliad terfynol gerbron y Pwyllgor.**

**8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol y derbyniwyd 8 cais am y swydd.

**PENDERFYNWYD**

**Rhoddi chwe ymgeisydd ar y rhestr fer.**
**Gwahodd yr ymgeiswyr hynny sydd yn llwyddo yn y Ganolfan Asesu i gyfweliad terfynol gerbron y Pwyllgor.**

Ar derfyn y cyfarfod ystyriwyd y cwestiynau posibl i'w gofyn yn y cyfweliad, pryd y cytunwyd y byddai pedwar o'r naw cwestiwn yn ddigonol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3.00pm